

CYNGOR CYMUNED MAWDDWY

Cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd Nos Fercher yr 22ain o Ionawr 2025 am 7.30yh yn Dinas Mawddwy.

Presennol; Cyng. John P Jones, Sion Alun Roberts, Wyn Lewis, Arfon Hughes, John P Roberts, Lynne Mccrickett, Rhys Davies, Berwyn Harding, Catrin Johnson, Idris Jones, Geraint Morgans a Huw T Jones (Clerc)

1. Estynwyd groeso cynnes i bawb gan y Cadeirydd Cyng John P Jones. Dymunwyd gwellhad buan i'r Cynghorydd John P Roberts ar ol ei lawdriniaeth. Gwahoddwyd ddatganiadau o ddirordeb am faterion ar yr agenda. Nid oedd unrhyw ddatganiadau.
2. Nodwyd nad oedd unrhyw gais i gael cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.
3. **Cadarnhawyd gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd** ar y 4ydd Rhagfyr ar gynnig Cyng Wyn Lewis a'i eilio gan Cyng Rhys Davies.

4. **Materion yn codi**

- a) **Materion Priffyrdd a Cefnffyrdd** – adroddwyd yn llawn am yr ymatebion i faterion ers y tro diwethaf. Roedd cadarnhad y byddai y gwaith ym maes parcio Neuadd Aberangell yn cael ei wneud yn fuan. Yng ngyswllt coed ar y ffordd i Cefn yn Aberangell, nid oedd yr arolygwr yn gweld problem. Addawodd Cyng John P Roberts dynnu lluniau a'u danfon iddynt.
- b) **Gwerthiant Eglwys Llanymawddwy** – adroddwyd diweddaraf, a bod bwriad gwneud cais i'r loteri, a bod angen gwybod y bwriad o'r defnydd l'r dyfodol. Roedd ymgynghoriad ar hyn. Nid oedd yr Eglwys yng Nghymru yn bwriadu gwerthu ar hyn o bryd.
- c) **Cwyn am 2 garafan static** – Min y Goedwig, Aberangell, - darllenwyd yr e-bost diweddaraf y Parc Cenedlaethol. Roedd siom am y sefyllfa, a bod angen tacluso yno.
- d) **Pwyllgor yr Hen Fynwent** – nid oedd diweddariad.
- e) **Safle chwarae i blant hyd at 15 oed yn y Plas yn Dinas** – Cadarnhaodd Cyng Wyn Lewis fod un amcangyfrif i law (oedd wedi ei ddsbarthu i bawb), a threfniant i gyfarfod cwmni arall ar y 4ydd Chwefror am 9.30yb.
- f) **Blwch Post ger yr Hen Siop** – adroddodd Cyng Arfon Hughes fod hyn wedi ei ddatrys.

Roedd y Clerc wedi cysylltu gyda'r Post Brenhinol am y Blwch Post yn Cerist, ac roedd angen atgoffa.

g) **Ystyriwyd ymhellach llythyr Liz Saville Roberts AS** a thrafodwyd y symud o linellau ffon analog i ffon digidol erbyn 31.01.27, a 'smart meters' sydd yn ddibynnol ar signal symudol i weithio. Addawodd nifer o Gynghorwyr ddanfôn engreiffiau l'r Clerc o fewn yr wythnos. Ar fater tloidi ynni a chredyd pensiwn, gofynnwyd l'r Clerc gysylltu gyda Age Cymru I weld a fyddent yn fodlon dod I wneud sesiwn 'galw mewn' yn Dinas ac Aberangell.

h) **Gofal/archwiliad o fynwentydd y Cyngor;**

Mynwent Mallwyd – Adroddodd Cyng Arfon Hughes am ei ymweliad a Mallwyd, a bod angen edrych ar rai rhannau o'r waliau, bod coed bach yn tyfu, ynghyd ag iddew. Cadarnhwyd gyfarfod yno ar 17 a 18 Chwefror am 10yb, a addawodd nifer i gynorthwyo.

Mynwent Llanymawddwy – Roedd Cyng Sion Alun Roberts wedi ymweld i glirio mwswg o'r llwybr, a byddai ef a John P Roberts yn ymweld eto i glirio hen ddeunydd o do'r Eglwys a thacluso etc

Mynwent Dinas – Cyng Wyn Lewis a John P Jones i ymweld

5 . Materion Cynllunio

NP5/74/516A - Trosi ac addasiadau allanol i weithdy domestig i ffurfio llety i westeion sy'n atodol i ddefnydd achlysurol o'r ty annedd fel gwely a brecwast.

Ger y Llan, Llanymawddwy

Roedd y cais yma wedi ei ddanfôn eisoes i'r Cynghrowyr, ac roedd y Clerc wedi ymateb yn dweud fod y Cyngor yn gefnogol.(roedd y mwyafrif yn gefnogol)

Dyma rai o'r rhesymau a nodwyd gan y Cynghorwyr;

- Ni fydd newid ir safle gan fod yr adeilad yna yn barod, ac yn wag. Dim gwhaniaeth i'r edrychiad allanol.
- Mae prinder o lefydd B& B un lloft o fewn yr ardal
- Mae digon o le parcio ar y safle
- Dim gwahaniaeth ir fynedfa
- Dim amharu ar gymdogion

.....

NP5/74/416A – codi estyniad unllawr ar yr ochr, estyniad deulawr yn y cefn a garej sengl ar wahan - Capel Hermon, Dinas Mawddwy

Yn dilyn trafodaeth, penderfynwyd yn unfrydol fod y Cyngor Cymuned yn gefnogol i'r cais. Roedd y ty presennol yn rhy fach, ac roedd yn newidiadau yn cydfynd a'r adeilad presennol. Nid oedd unrhyw wahaniaeth i'r mynediad. Roedd yma deulu cynhenid lleol gyda phlant Cymraeg iaith cyntaf yn mynychu ysgolion meithrin a chynradd lleol. Roedd hyn yn rhoi dyfodol sicr i'r iaith gymraeg, a chael teulu ifanc i aros yn eu hardal.

(Cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng John P Roberts pan drafodwyd hyn)

6. Materion Cyllid.

a) **Nodwyd balansau y cyfrifon**, (22.01.25), sef Cyfri Cyfredol £9656.33, Cyfri Claddedigaeth £801.29 a Cyfri Cadw £788.50.

b) Anfonebau l'w talu;

Ar gynnig Cyng Sion Alun Roberts a'i eilio gan Cyng Geraint Morgans, cytunwyd i dalu y canlynol;

Cydnabyddiaeth trydydd chwarter y Clerc £434.95 a HMRC £108.80

Anfoneb Tegid Humphreys am dorri gwair mynwentydd Llanymawddwy a Mallwyd 3 gwaith , a torri gwrychoedd Llanymawddwy - £1400.

c) Ceisiadau am arian - nodwyd y canlynol i law;

Ambiwlans Awyr Cymru (ers cyfarfod diwethaf – i'w drafod tro nesaf)

Yr Urdd – Cronfa Cyfle i bawb 2024-25 (ers cyfarfod diwethaf – i'w drafod tro nesaf)

Darllenwyd lythyr Wyn Jones ac Anwen Pugh (Cadeirydd a Thrysorydd Neuadd Dinas Mawddwy) yn gofyn am gyfraniad i'r Neuadd. Ar gynnig Cyng Arfon Hughes a'i eilio gan Cyng Geraint Morgans penderfynwyd ar swm o £1000. Hefyd cyfrannu £500 i Neuadd Aberangell. (cafwyd datganiad diddordeb gan Cyng Catrin Johnson, Lynne Mccrickett, Wyn Lewis, Sion Alun Roberts, a Berwyn Harding pan drafodwyd hyn.)

7. Gohebiaeth.

a) Nodwyd nad oedd dyddiadau hyfforddiant Un Llais Cymru diweddaraf i law.

b) Roedd nodyn o ddiolch i law gan Anwen Pugh yn gwerthfawrogi yr halen ar ffyrdd yr ardal, gan gyfeirio at Rhiw Tygwyn, (Cytir) a oedd yn sicrhau Gofalwyr Sea Shells yn medru rhoi gofal i'w Mham, sef Dilys Esgairadda. Byddai y Clerc yn pasio hwn ymlaen i'r Adran Briffyrdd

c) Nodwyd cais am bin graen ar y ffordd o Aberangell i Aberllefenni (ger tro Cefngwyn) Ystyriwyd hyn yn ofalus, ond gwelwyd ein bod wedi gwrthod o'r blaen i lefydd tebyg, ac roedd yn anodd caniatu lle byddai yn gosod cynsail i geisiadau eraill. Fe nodwyd fod cylfert wedi blocio ger mynedfa am Cefngwyn, a y dylid cyfeirio hyn at yr Adran Briffyrdd.

d) Nodwyd e-bost gan Ieuan Wyn o 'Cylch yr Iaith' yn annog y Cyngor i ddanfôn gair at Mark Drakeford yn Llywodraeth Cymru yng nghyswllt argymhellion Comisiwn y Cymunedau Cymraeg. Addawodd Cyng Arfon Hughes ei baratoi, a byddai Cyng John P Jones yn ei arwyddo fel Cadeirydd y Cyngor.

e) Nodwyd ohebiaeth gan 'Cyfeillion Llyn' yn ein gwahodd i fabwysiadu polisi iaith. Byddai y Clerc yn ei ddsbarthu, a bydd trafod tro nesaf.

f) Nodwyd ohebiaeth am Yswiriant Seibr – penderfynwyd gadael hwn am y tro.

7. Unrhyw Fater arall.

a) Adroddwyd fod angen ail-lenwi graean ger y bont droed ar Dol y Bont. Addawodd Cyng Wyn Lewis ag Arfon Hughes ymdrin a hyn.

b) Roedd draen wedi blocio ger y maes parcio yn Llanymawddwy. Addawodd Cyng Sion Alun Roberts a John P Roberts glirio ychydig ar y maes parcio wedi i hyn gael ei ddatrys.

c) Roedd y storm ddiwethaf wedi taro yr hysbyswrdd yn Llanymawddwy, ac roedd angen dau bolyn newydd. Addawodd Cyng Catrin Johnson a Sion Alun Roberts gymryd gofal o hyn. Diolchwyd am hyn, a chafwyd cynnig caredig o goed gan Cyng Rhys Davies. Diolchwyd hefyd i Lynne Mccrickett am fynd oddiamgylch yr hysbysfyrddau yn yr ardal i'w harchwilio yn achlysurol.

d) Nododd Cyng Berwyn Harding draffethion mawr gyda gwasanaeth ffon, ond gobaith y byddai yn cael ei ddatrys yn fuan.

- e) Roedd pryder am gynlluniau i gau ffordd yr A458 ger Nantydugoed i welliannau. Roedd angen eglurhad ar y sefyllfa.

**DYDDIAD CYFARFOD NESAF; NEUADD DINAS MAWDDWY NOS
FERCHER 5ed Mawrth 2025 am 7.30 y.h.**